

MAELGWN ap RHYS (c. 1170 - 1230), arglwydd Ceredigion

Enw: Maelgwn ap Rhys
Dyddiad geni: c. 1170
Dyddiad marw: 1230
Plentyn: Maelgwn Fychan
Rhiant: Gwenllïan ferch Madog ap Maredudd
Rhiant: Rhys ap Gruffydd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: arglwydd Ceredigion
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Thomas Jones Pierce

mab yr **arglwydd Rhys** a Gwenllïan, ferch **Madog ap Maredudd**. Ymddengys am y tro cyntaf yng ngwarchae Dinbych-y-pysgod yn 1187; cymerth arno arwydd y groes pan fu **Gerallt Gymro** yn teithio trwy Gymru yn 1188. Un byr o gorrfoleaeth ydoedd, terfysglyd ac ymladdgar, a pharodd ei ymarweddiad gryd ofid i'w dad yn ei flynyddoedd olaf. Yr oedd yn garcharor o 1189 hyd 1194 ac yn alltud pan fu **Rhys** farw yn 1197. Dychwelodd gan benderfynu cael cyfran o diroedd y teulu a thrwy hynny parodd lawer o helynt ac anesmwythyd i'w frawd **Gruffydd**, ei elyn mwyaf ffyrnig, ac ar ôl 1201, pan fu **Gruffydd** farw, i'w neiaint, Rhys ac **Owain**. Trwy ymgynghreirio â **Gwenwynwyn** a'r brenin John cafodd, yn 1199, arglwyddiaeth Ceredigion, eithr cymerwyd y cymydau gogleddol oddi arno gan **Lywelyn** yn 1207. Ei fethiant i adennill y tir hwn wedi iddo helpu John i ennill buddugoliaeth ar **Lywelyn** yn 1211 a barodd iddo, y mae'n fwy na thebyg, fynd drosodd ac ymuno â phlaid **Lywelyn**. Gwelir, fodd bynnag, nad oedd cred **Lywelyn** ynddo ddim yn ddiysgog oblegid pan aethpwyd i rannu tiroedd yr **arglwydd Rhys** o dan nawdd **Lywelyn** yn 1216 cadwyd Maelgwn allan o'r holl diroedd uwchlaw afon Aeron. Bu farw yn Llannerch Aeron yn 1230; claddwyd ef yn Ystrad Fflur; a dilynwyd ef gan ei fab, Maelgwn Fychan.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. II

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Maelgwn ap Rhys

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q3399393

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Pierce, T. J., (1953). MAELGWN ap RHYS (c. 1170 - 1230), arglwydd Ceredigion. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MAEL-APR-1170>

Prifysgol

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government